**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 6 Tachwedd 2001
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Corrine Leavy | Dirprwy Glerc y Pwyllgor Dros Dro |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Pauline Jarman, Rosemary Butler a John Griffiths

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-23-2001 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Cofnododd y Cadeirydd fod Clerc y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Clerc i'r Cynulliad yn sefydlu polisi ar roi anrhegion gan Bwyllgorau a grwpiau eraill yn y Cynulliad. Byddai'r eitemau i'w rhoi fel anrhegion ar gael i bawb drwy gyfrwng siop y Cynulliad. Byddai modd i'r Pwyllgorau brynu anrhegion i'w defnyddio ar fusnes swyddogol y Pwyllgor. Caiff y polisi hwn gymeradwyaeth ffurfiol cyn bo hir.

2.2 Cytunwyd y byddai'r Adroddiad gan y Cadeirydd ar y Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwygio Rheoliadau, Rheoli a Chraffu ar Ddeddfwriaeth yn cael ei gyhoeddi yn fewnol mewn fformat tebyg i

Adolygu Polisi: Darparu Lleoedd mewn Ysgolion gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC354: Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC354 (Adroddiad).

**LC355: Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.5 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau nad oedd materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, nodwyd nifer o fân wallau drafftio/teipograffyddol. Gan fod y rhain yn fân wallau drafftio cytunwyd y gellid eu diwygio o dan Rh.S.22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC355 (Adroddiad).

**LC356: Gorchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael) (Cymru) 2001**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.8 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau nad oedd unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, nodwyd i'r Gorchymyn hwn gael ei gyfeirio at Gwnsler Seneddol a awgrymodd ambell ddiwygiad drafftio. Cytunwyd y gallai'r pwyntiau a wnaeth gael eu diwygio o dan Rh.S.22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwallau yn y modd hwn.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC356 (Adroddiad).

**LC357: Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001**
3.10 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau

ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r cyfreithiwr drafftio at nifer o bwyntiau teipograffyddol.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC357 (Adroddiad).

**LC358: Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 10) 2001**
3.13 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.14 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Codwyd tri phwynt, sef un yn ymwneud â dryswch o ran terminoleg a gwnaed dau gyfeiriad at ddarpariaethau a ddilëwyd.

3.15 Felly, cytunodd y Pwyllgor i weithredu'r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 11.4. Mae hyn yn darparu cyn adrodd yn ôl i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth, bod yn rhaid i'r Cadeirydd yn gyntaf hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i wneud adroddiad o'r fath a rhoi cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.
**Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol/Clerc.**

**LC359: Rheoliadau Cig (Hylendid ac Archwilio) (Ffioedd) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001**
3.16 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor ddau bwynt teipograffyddol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC359 (Adroddiad).

**Eitem 4: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Deddfau**
4.1 Cafodd yr adroddiad sêl bendith y pwyllgor fel adlewyrchiad cywir o waith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
5.1 Mynegwyd pryder ynglyn â datgan buddiannau gan aelodau o'r Pwyllgor ar adegau pan fo'r Pwyllgor yn trafod materion yn ymwneud â buddiannau preifat o'r fath. Gofynnwyd i'r Cadeirydd egluro'r sefyllfa bresennol. Gweithredu: Cadeirydd/Clerc

5.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Tachwedd 2001.